

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

GWASANAETHAU MAETHU

DATGANIAD O DDIBEN

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Ffôn: 642674

(Diwygiwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2017)

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn ar gyfer

GWASANAETHAU MAETHU

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT
AR OGWR**

wedi cael ei gymeradwyo gan yr

**Unigolyn Cyfrifol
Laura Kinsey**

Llofnod:

Dyddiad:

Cyflwyniad i Ddatganiad o Ddiben y Gwasanaethau Maethu

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi cael ei lunio yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 (3(1)) a chyfeirir ato fel "y Datganiad o Ddiben. Mae Rheoliad 4 yn nodi'r gofynion ar gyfer adolygu'r Datganiad o Ddiben. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu ac mae Safon 1 yn ymhelaethu ar ofynion pellach o ran ei gynnwys a threfniadau ar gyfer ei adolygu.

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn yn darparu gwybodaeth am Wasanaethau Maethu Pen-y-bont ar Ogwr a ddarperir trwy Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cynllun Cyswllt Teulu. Mae'n rhoi amlinelliad o nodau ac amcanion y Gwasanaethau a rhai o'u nodweddion allweddol. Bydd yn cael ei ddarparu ar gais ar gyfer Gofalwyr Maeth a gymeradwyir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac ar gyfer ymgeiswyr sy'n dechrau asesiad i ddod yn ofalwr maeth. Gellir trefnu ei fod ar gael ar bapur i weithwyr cymdeithasol sy'n ystyried gwneud lleoliad gydag unrhyw un o'r gwasanaethau ac mae copïau electronig ar gael ar y fewnwyd mewn swyddfeydd. Bydd ar gael ar gais i rieni, plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, bydd y Canllaw i Blant yn cynnwys crynodeb o'r cynnwys a rhagwelir y bydd o fwy o ddiddordeb a pherthnasedd i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc.

Yn ogystal â'r Datganiad o Ddiben, ceir ystod o ddogfennau polisi a gweithdrefnol penodol sy'n adlewyrchu'r nodau, yr amcanion, egwyddorion gwasanaethau a'r safonau a nodir yn y Datganiad o Ddiben.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol, gan adlewyrchu'r newidiadau parhaus sy'n cael eu gwneud i wella'r gwasanaeth. Bydd cynigion ar gyfer gwella gwasanaethau'n cael eu goleuo gan brosesau ymgynghori â rhieni a phlant/pobl ifanc, a gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â gofalwyr maeth, staff yn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr a rhanddeiliaid eraill. Bydd canlyniadau prosesau ymgynghori trwy gydol y flwyddyn yn cael eu hystyried ac mae Datganiad o Ddiben diwygiedig yn ei le o 1 Ebrill bob blwyddyn.

CYNNWYS

1. Y Strwythur Rheoli
2. Gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Maethu ac unrhyw gyfyngiadau a weithredir
3. Nodau ac Amcanion
4. Egwyddorion a Safonau Gofal
5. Cymwysterau a Phrofiad y meysydd unigol o fewn y Gwasanaeth Maethu
6. Gweithdrefnau a Phrosesau
 - 6.1 Recriwtio
 - 6.2 Asesu a Chymeradwyo
 - 6.3 Hyfforddiant a Chymorth
 - 6.4 Adolygu
7. Sicrhau Ansawdd
8. Cwynion
9. Manylion Cyswllt AGGCC
10. Manylion Cyswllt y Comisiynydd Plant

1. Strwythur Rheoli

- Rheolwr Cofrestredig y Gwasanaethau Maethu yw'r Rheolwr Tîm ar gyfer Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr, hi yw rheolwr y Gwasanaethau Maethu ac mae'n adrodd wrth Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoledig - **Jo Lloyd-Jones** yw hi
- Mae'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Rheoledig yn swyddog trydedd haen - **Natalie Silcox** yw hi.
- Mae'r Pennaeth Diogelu a Chymorth i Deuluoedd yn swyddog ail haen - **Laura Kinsey** yw hi
- Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yw'r **Cyfarwyddwr Corfforaethol- Sue Cooper**.

2. Gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Maethu ac unrhyw gyfyngiadau a weithredir

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn darparu ystod o wasanaethau gofal maeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwasanaeth yn cynnig y mathau canlynol o leoliadau i blant a phobl ifanc o 0-18 oed:

Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

- Gofal brys, seibiant a byrdymor
- Gofal hirdymor
- Gofal gan berthynas – gofal gan ffrindiau neu aelodau o'r teulu sydd wedi'u cymeradwyo fel gofalwyr maeth
- Gofal Rheoliad 26 – Lleoli Plentyn ar Unwaith gyda Pherthnasau neu Ffrindiau dan Reoliad 26 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015
- Gofal Cymorth – Gwasanaeth ataliol sydd wedi'i fwriadu i gefnogi teuluoedd, plant a phobl ifanc ac atal plant rhag dod yn Blant sy'n Derbyn Gofal
- Gofal seibiant byr – gofal seibiant i blant i'w cefnogi yn y gymuned neu gyda gofalwyr maeth eraill
- Darparu gwelyau brys
- Swyddog Maethu Preifat pwrpasol
- Gweithiwr Cymorth Lleoli

- Y Cynllun Cyswllt Teulu
- Maethu Preifat
- Lleoliadau Rhiant a Phlentyn

Gwasanaethau ar gyfer plant gofalwyr maeth

- Mynediad at ddigwyddiadau arbennig
- Darparu grŵp cymorth i blant
- Grŵp a gwaith i gydnabod meibion a merched

Gwasanaethau ar gyfer Darpar Ofalwyr

- Gwybodaeth a chyngor ynghylch maethu – a ddarperir trwy sesiynau gwybodaeth cwrdd a chyfarch misol, taflenni, hysbysebion ar orsafoedd radio lleol a gwefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r broses yn cynnwys ymateb dros y ffôn, dosbarthu pecyn gwybodaeth, gwahoddiad i ddigwyddiad cwrdd a chyfarch, cyn y cynhelir ymweliad cychwynnol â'r cartref i benderfynu a fydd unrhyw gais yn mynd yn ei flaen.
- Aseiad – Bydd gweithiwr cymdeithasol cymwysedig o Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr yn ymweld â'r darpar ymgeisydd ac yn egluro'r broses o lunio adroddiad Ffurflen F, a saerniaeth adroddiad o'r fath, ochr yn ochr â'r broses o'i gymeradwyo a'i gyflwyno i'r Panel Maethu. Bydd yr holl ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig tridiau o hyfforddiant paratoadol sgiliau maethu a bydd disgwyl iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwnnw a ddarperir gan staff Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym bellach yn cynnig hyfforddiant paratoadol sgiliau maethu pwrpasol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau.
- Bydd darpar ofalwyr y gwasanaeth Gofal Cymorth yn cael eu hasesu gan weithiwr cymdeithasol y gwasanaeth Gofal Cymorth
- Bydd darpar ofalwyr Cyswllt Teulu yn cael eu hasesu gan weithiwr cymdeithasol o fewn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr
- Bydd darpar ofalwyr Rhiant a Phlentyn yn cael eu hasesu gan uwch weithiwr cymdeithasol o fewn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr

Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr

- Cymorth a goruchwyliaeth nad ydynt yn llai aml na phob 6 wythnos, hyd at 10 wythnos mewn achosion perthynol penodol.
- Gweithiwr cymorth lleoli sydd â 3 maes penodol y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'i swydd
 1. Cefnogi gofalwyr trwy gwynion neu honiadau
 2. Cynorthwyo gofalwyr i reoli ymddygiad heriol gyda'r bwriad o atal hynny rhag tarfu ar y lleoliad
 3. Cynorthwyo a chefnogi gofalwyr sy'n symud plant ymlaen i leoliadau mabwysiadu.
- Gwasanaeth cymorth wedi'i adnabod gan gydweithiwr profiadol ym maes gofal maeth (Gofalwr cyswllt)
- Adolygiad Blynnyddol
- Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad unigol, Rhaglen hyfforddiant
- Darparu canllawiau ysgrifenedig – llawlyfr gofalwr maeth
- Mynediad at Lefel 3 y FfCCh (Fframwaith Cymwysterau a Chredydau)
- Mynediad at ofal seibiant priodol
- Cymorth y tu allan i oriau arferol – gan y Tîm Dyletswydd Argyfwft
- Digwyddiad Ymgynghori / Gwybodaeth 2 waith y flwyddyn
- Cytundeb Gofalwr Maeth
- Grwpiau Cymorth a hwylusir; perthnasau a Rheoliad 26, dynion sy'n gofalu, plentyn/plant i ofalwyr.
- Taliadau cynhaliaeth ac yn ôl disgrisiwn, mynediad at daliadau ffioedd
- Aelodaeth unigol o'r Rhwydwaith Maethu i'r holl aelwydydd sy'n maethu
- Cangen leol a hwylusir o'r Gymdeithas Gofal Maeth
- Cylchlythyr chwarterol y gall gofalwyr gyfrannu ato

Trefniadau ariannol

Mae'r cynllun taliadau'n seiliedig ar daliad ar gyfer sgiliau i ofalwyr maeth cyffredinol mewn perthynas â datblygu a chyflawni'r FfCCh a darpariaeth faethu lwyddiannus barhaus.

Ceir darpariaeth ar gyfer pum gofalwr maeth Cyswllt a fydd yn ofalwyr sydd wedi cyflawni eu FfCCh o leiaf 3 blynedd yn flaenorol ac sy'n ofalwyr profiadol; bydd y rôl yn rhoi cyfrifoldebau iddynt yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau fel gofalwyr maeth. Bydd gan y gofalwyr cyswllt (3 yn gyfrifol am ardaloedd unigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 1 am berthnasau ac 1 am ofalwyr Rheoliad 26) lwyth achosion o

gyd-ofalwyr y maent yn eu cefnogi ac yn eu cynghori; yn eu blwyddyn gyntaf ac wrth iddynt gyflawni dyfarniad y FfCCh.

Hefyd, gellir galw arnynt i gynorthwyo gyda dyletswyddau eraill gan gynnwys hyfforddiant, datblygu, ymgynghori, recriwtio a gweithgareddau ar gyfer plant maeth.

Mae gofalwyr maeth yn cael lwfansau wythnosol am bob plentyn fel a ganlyn:

Oed	Lwfansau Maethu
0-4	166.00
5-10	151.00
11-15	177.38
16-17	224.37

Hefyd, gellir talu ffi wythnosol am bob plentyn i ofalwyr maeth cyffredinol cymwys, yn ôl y lefel y maent yn gymwys ar ei chyfer, fel a ganlyn:

	Lefel 2	Lefel 3
Oed	Ffi	Ffi
	£	£
0-4	74.48	148.88
5-10	74.48	148.88
11-15	94.77	189.61
16-17	94.77	189.61

Bydd ffi unfurf o £90 yr wythnos yn cael ei thalu i ofalwyr cyswllt

Mae'r meini prawf ar gyfer pob Lefel yn ymwneud â'r canlynol:

Lefel 2

Adolygiad blynyddol boddhaol; darparu'r uchafswm o ran lleoliadau, cymeradwyaeth lawn a bodloni cymwyseddau gofalwr maeth i lefel gofal maeth cyffredinol, oni bai eu bod yn cynnig lleoliadau maeth cyffredinol ac yn bodloni'r cymwyseddau, ni fydd gofalwyr sy'n berthnasau'n gymwys i gofrestru ar gyfer y FfCCh.

Cofrestru ar gyfer y FfCCh
Lefel sgil/cyfrifoldeb

Lefel 3

Meddu ar y FfCCh, darparu'r uchafswm o ran lleoliadau, cymeradwyaeth lawn a bodloni cymwyseddau gofalwr maeth i lefel gofal maeth cyffredinol

Lefel sgil a chyfrifoldebau ychwanegol

Gofalwr cyswllt

Proses ymgeisio, dethol a chyfweld
Cyfrifoldebau ychwanegol yn unol â manyleb y person

Mae taliadau ychwanegol yn cynnwys treuliau milltiredd yn ôl cyfradd Cyllid a Thollau EM, lwfansau dillad a gwisg ysgol newydd cychwynol yn ôl disgrisiwn Rheolwr y Tîm, a phrynu offer penodol (y cytunwyd arnynt yn flaenorol).

Y Cynllun Cyswllt Teulu

Mae'r gwasanaeth seibiant byr yn cynnig gofal seibiant byr teuluol i blant a phobl ifanc anabl.

Mae seibiannau byr yn helpu i frwydro yn erbyn yr arwahanrwydd y mae plant a phobl ifanc anabl yn abl yn ei deimlo gan eu galluogi i gwrdd â phobl newydd a dod yn rhan o 'ail deulu', gan ehangu eu bywyd cymdeithasol a chynnig profiadau newydd.

Mae'r seibiannau byr hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i rieni plant a phobl ifanc anabl gael seibiant a threulio amser o safon gyda phlant eraill neu wneud pethau a allai fod yn anodd i'w gwneud wrth ofalu'n llawn-amser.

Mae'r seibiannau a hyrwyddir gennym ni'n digwydd, nid mewn sefydliadau, ond yng nghartrefi gofalwyr/teuluoedd a ddetholwyr yn ofalus yn lleoliad cymunedol y plentyn ei hun.

Bydd y plant sy'n defnyddio seibiannau byr teuluol trwy'r gwasanaeth wedi cael diagnosis sy'n dynodi bod ganddynt anabledau dysgu; mae anabledau eraill yn cynnwys anabledau corfforol, anghenion gofal iechyd cymhleth, neu nam ar y synhwyrau.

Efallai y bydd hyd at 120 o ddiwrnodau'r flwyddyn gan ddibynnu ar yr asesiad o anghenion ar gael i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn gan eu galluogi i barhau i fyw gyda'u teuluoedd.

Nodau ac Egwyddorion y Cynllun Cyswllt Teulu

Nodau:

- Cefnogi teuluoedd sydd â phlentyn/person ifanc anabl, trwy gynnig seibiannau byr rheolaidd i'r plentyn/person ifanc oddi cartref.
- Cynnig seibiant i'r rhieni, cynnig profiadau newydd i'r plentyn/person ifanc a chyfle i ddatblygu mesur o annibyniaeth ar y teulu.
- Annog y plentyn/person ifanc i ddatblygu ei unigolrwydd, ei hyder a'i hunan-fri ei hun.
- Mae'r plentyn/person ifanc yn aros yn ei gymuned ei hun.

Egwyddorion:

- Mae anghenion y plant/y bobl ifanc yn cael eu diwallu orau a'u buddiannau'n cael eu gwarchod orau trwy dyfu yn eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain.

- Hyblygrwydd a dewis o ran trefnu seibiannau.
- Mynediad cyfartal, ni waeth pa mor ddifrifol yw'r anabledd.
- Seibiannau sy'n gysylltiedig ag anghenion dynodedig.
- Cyfranogiad llawn gan bawb.

Mae'r taliadau presennol i ofalwyr Cyswllt Teulu fel a ganlyn:-

Tal cadw amwynderau wythnosol yr aelwyd:	£42.66
Sesiwn floc (am gyfnod o 6 awr):	£8.17
Ad-delir costau milltiredd yn ôl cyfradd o	£0.498

Gwasanaeth Rhiant a Phlentyn

Cyflwynwyd cynnig i Gabinet CBS Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Rhagfyr 2015 y byddai Tîm Maethu Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydlu Gwasanaeth Rhiant a Phlentyn.

Cytunodd y Cabinet â'r cynnig ac fe benodwyd uwch ymarferydd i sefydlu'r gwasanaeth ym mis Hydref 2016.

Bydd y gwasanaeth yn barod i dderbyn atgyfeiriadau o fis Mawrth 2017.

Nodau:

- Cynorthwyo rhieni a phlant i gael eu lleoli gyda'i gilydd tra bo asesiad yn cael ei gynnal
- Mae'r plentyn/person ifanc yn aros yn ei gymuned ei hun.
- Mwy cost-effeithiol a hyblyg o ran yr hyn y gellir ei gynnig.
- Cyfleoedd cynyddol i deuluoedd aros yn eu hardal leol.
- Mae lleoliadau lleol yn galluogi rhieni i gynnal cysylltiadau teuluol estynedig a chael mynediad at wasanaethau cymorth lleol gan gynnwys addysg neu hyfforddiant.
- Bydd gan staff gwaith cymdeithasol fwy o amser i'w dreulio'n asesu ac yn cefnogi'r teuluoedd gan y bydd eu lleoliad yn yr ardal leol.

Taliadau i ofalwyr:

Cyfradd Wythnosol **£721.86**

3. Nodau ac Amcanion y Gwasanaethau Maethu.

Nod Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr a chynlluniau cysylltiedig yw rhoi gofal maeth o ansawdd da i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Amcanion y gwasanaeth:

- Sicrhau bod plant yn cael eu galluogi i ffurfio ymlyniadau sicr wrth ofalwyr sy'n gallu rhoi gofal diogel ac effeithiol
- Sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed emosiynol, corfforol a rhywiol neu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- Sicrhau bod plant yn cael budd o gyfleoedd addysgol, gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn hyblyg, yn ymatebol ac yn gefnogol i ofalwyr
- Galluogi gofalwyr maeth i roi gofal o ansawdd da trwy unrhyw gynnwrf yn eu bywydau unigol a theuluol
- Grymuso staff a gofalwyr i hybu buddiannau pennaf y plant sy'n cael eu hystyried ar gyfer lleoliad trwy'r gwasanaeth maethu neu sydd wedi cael lleoliad trwy'r gwasanaeth maethu.
- Annog y sefydliad cyfan i werthfawrogi a pharchu cyfraniad gofalwyr maeth a gweithio mewn partneriaeth gyda hwy
- Mynd ati'n weithredol i gynnwys gofalwyr yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau
- Defnyddio Gofal Maeth i atal plant a theluoedd rhag cael eu gwahanu a phlant rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod gofalwyr maeth yn meddu ar sgiliau a chymwysterau priodol, wedi cael hyfforddiant priodol a hybu'r arfer o gael hyfforddiant
- Hyrwyddo'r gwasanaeth gofal maeth yn y gymuned ehangach ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Parhau i recriwtio gofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn awr ac yn y dyfodol.
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth sydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol hwn er mwyn:
 - darparu mwy o ddewis o leoliadau
 - hybu parhad o ran trefniadau iechyd ac addysg presennol
 - paru plant â gofalwyr maeth addas
 - darparu lleoliadau lleol i alluogi plant i aros yn eu cymunedau lle y bo'n briodol
- Datblygu darpariaeth gan y gwasanaeth maethu sy'n cynnwys lleoliadau rhiant a phlentyn.

4. Egwyddorion a Safonau Gofal

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn ceisio sicrhau bod ei bolisiâu, gweithdrefnau ac arfer yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, Safonau Gofynnol Cenedlaethol y DU ar gyfer Gofal Maeth a Safonau Gofynnol Cenedlaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Gwasanaethau Maethu. Yn yr un modd, mae arfer y Gwasanaeth yn adlewyrchu'r Cod Ymarfer ar recriwtio, asesu, cymeradwyo, hyfforddi, rheoli a chefnogi gofalwyr maeth.

Mae'r Gwasanaethau Maethu:

- Yn ceisio darparu lleoliadau o ansawdd da gyda gofalwyr maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal y mae arnynt angen lleoliadau mewn lleoliad teuluol
- Yn ceisio rhoi dewis o leoliad i'r holl blant sy'n derbyn gofal
- Yn parchu tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, crefydd ac iaith plant a gofalwyr maeth ac yn hybu'r cefndir hwnnw yn y lleoliad.
- Yn cefnogi prosesau sy'n sicrhau bod y broses o asesu anghenion plentyn/plant yn arwain at baru'r plentyn hwnnw/plant hynny, lle y bo'n bosibl, â gofalwyr maeth sy'n meddu ar y sgiliau i ddiwallu'r anghenion hynny, gyda chynllunio, adolygu a chymorth parhaus mewn perthynas â chynllun y plentyn/plant
- Yn cydnabod yr anfantais y mae rhai plant sy'n derbyn gofal yn ei phrofi, yn enwedig o ran iechyd ac addysg, ac yn gweithio mewn modd gweithredol i hybu canlyniadau cadarnhaol

- Yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gyda phawb sy'n gysylltiedig â gofal plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys plant, eu teuluoedd, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill
- Yn parchu gofalwyr maeth fel partneriaid yn y broses o ddarparu gwasanaeth proffesiynol
- Yn gwerthfawrogi'r cyfraniad unigryw sydd gan bob gofalwr maeth i'w gynnig ac yn cynorthwyo gofalwyr maeth i fynd ati'n barhaus i wella'u galluoedd trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol
- Yn ceisio gwerthuso a gwella'i wasanaethau'n barhaus
- Yn galluogi gofalwyr i weithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol, asiantaethau allanol a'r plant sydd wedi'u lleoli trwy gynnig gwasanaeth cefnogi lleoliadau mewn ardaloedd problemus a adnabuwyd.
- Darparu gwasanaeth Gofal Cymorth sydd wedi'i fwriadu'n bennaf i gynnig gwasanaeth ataliol gan felly alluogi teuluoedd yn yr ardal leol i aros gyda'i gilydd.

5. Cymwysterau a Phrofiad Tîm Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Tîm Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y staff canlynol:

- Un Rheolwr Tîm
- 3 swydd Uwch Ymarferydd
- 14 Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo / Asesu (3 swydd x 2 ½ diwrnod yr wythnos, 2 swydd x 3 diwrnod yr wythnos ac 1 swydd x 4 diwrnod yr wythnos)
- 1 cynorthwydd gwaith cymdeithasol sy'n goruchwyllo
- 1 gweithiwr cefnogi lleoliadau 3 diwrnod

Rheolwr Tîm –

(a) Cymwysterau	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1992
	Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol	2006
	Rhaglen Datblygu Rheolwyr Timau	2016

(b) Profiad

Mae'r Rheolwr yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig ag 11 mlynedd o brofiad ôl-gymhwysio ym maes gofal plant.

Arferai'r rheolwr weithio mewn Awdurdod Lleol am 16 mlynedd cyn gweithio mewn asiantaeth faethu annibynnol am 5 mlynedd. Mae'r rheolwr wedi cwblhau'r rhaglen datblygu rheolwyr timau.

Penodwyd y Rheolwr ym mis Gorffennaf 2015 ac mae'n gyfrifol am reoli a goruchwyllo Tîm Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Y Rheolwr yw Rheolwr Gwasanaethau Maethu Cofrestredig CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Uwch Ymarferydd / cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau, cefnogi lleoliadau, ymholiadau gan ofalwyr cyffredinol

- (a) Cymwysterau** Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol 2004
Diploma mewn Astudiaethau Lles 2002
Tystysgrif mewn Astudiaethau Lles 2001

(b) Profiad Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 13 blynedd o brofiad ôl-gymhwysio ym maes gofal plant gyda CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y profiad cyn cymhwysio'n cynnwys 3 blynedd ym maes gwaith Datblygu Ieuencid.

Uwch Ymarferydd / recriwtio a marchnata, hi fydd â'r prif gyfrifoldeb am asesiadau, cyfarfodydd cyfreithiol, recriwtio ac ymgyrchoedd ar gyfer gofalwyr maeth cyffredinol

- (a) Cymwysterau** 2007 BSC Seicoleg gyda Saesneg
2010 Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol
2016 Galluogi Ymarfer (Gradd Meistr Lefel 7)

(b) Profiad Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 2 flynedd o brofiad ôl-gymhwysio mewn Gwaith Cymdeithasol Diogelu a 9 mis o brofiad ym maes Gwaith Cymdeithasol Iechyd Meddwl cyn hyn. Roedd y profiad cyn cymhwysio'n cynnwys gweithio mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol statudol ac ym maes maethu preifat, fel rhan o'r cymhwyster. Gwaith gwirfoddol gyda'r Samariaid.

Uwch Ymarferydd – Cynllun maethu mewnol Rhiant a Phlentyn. Y dyddiad lansio yw 31 Mawrth 2017

- (a) Cymwysterau** Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol 2004

Diploma mewn Astudiaethau Lles 2002
Tystysgrif mewn Astudiaethau Lles 2001

- (b) Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd ag 11 mlynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes gofal plant yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y profiad cyn cymhwyso'n cynnwys 3 blynedd ym maes gwaith Datblygu Ieuencid.

Mae 14 o Weithwyr Cymdeithasol sy'n Asesu a/neu sy'n Goruchwylio yn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr.

1- Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio

- (a) Cymwysterau** Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol 2005
BTEC Astudiaethau Plentyndod Cynnar
BSc (Econ)(Anrh) Lles Cymdeithasol
CACDP Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1a 2
Tyst. Add. Uwch mewn Amddiffyn Plant 2010
Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol BTEC mewn Sgiliau Cwnsela 2007
- (b) Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 10 mlynedd a hanner o brofiad. Cyn cymhwyso roedd wedi cael profiad o weithio i elusen ar gyfer plant ag anawsterau dysgu ac ymddygiad heriol ac i asiantaeth faethu annibynnol.

2 –Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio

- (a) Cymwysterau** HNC Rheoli Busnes
DIPSW 2004
- (b) Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 10 mlynedd o brofiad mewn lleoliadau gofal plant generig, ac ym maes mabwysiadu a maethu. Mae wedi cael profiad yn flaenorol o weithio gydag oedolion ag anableddau dysgu mewn lleoliad gofal dydd.

3- Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu – Rhan-amser

- (a) **Cymwysterau** BA (Anrh) Astudiaethau Crefyddol 2000
Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol 2002.
Dyfarniad Ôl-gymhwysio 2006
- (b) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 15 mlynedd o brofiad ôl-gymhwysio ym maes maethu a mabwysiadu yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi gweithio fel Uwch Ymarferydd o fewn y tîm. Mae'n meddu ar brofiad o weithio yn y sector gwirfoddol ym Mhrydain a thramor.

4- Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu – Rhan-amser

- (a) **Cymwysterau** Gradd BA (Anrh) 1989 – Prifysgol Surrey
Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol – Prifysgol Caerdydd 1994
- (b) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig ac yn meddu ar y profiad isod
- 1994 – 1999 – Tîm Diogelu RhCT
1999 – 2001 – Uwch Weithiwr Cymdeithasol NCH
2001 – 2013 – Uned Asesu Rhianta ar gyfer Lles
Uwch Weithiwr Cymdeithasol (2001 – 2008), Rheolwr Cofrestredig (2008 – 2013)
2013 – presennol – gweithiwr cymdeithasol – gwasanaethau maethu RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr

5- Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo

- a) **Cymwysterau**
- | | |
|-----------------------------------|------|
| Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol | 2004 |
| Tystysgrif mewn Astudiaethau Lles | 2002 |
| OCN Sgiliau a Theori Cwnsela | 2001 |
| Tystysgrif mewn Gwaith Ieuencid | 2000 |
| PQ (1) | 2010 |
- (b) **Profiad** 10 mlynedd o brofiad ôl-gymhwysio mewn gwasanaethau seibiant byr. Cyn cymhwysio roedd wedi bod yn gweithio fel gweithiwr cymorth gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ym maes gwaith ieuencid, roedd wedi cael profiad gwirfoddol gyda'r

Gwasanaeth Prawf, Cymdeithas y Plant – Eirioli a Chyfyngu, a Cymorth i Ddioddefwyr. Uwch Weithiwr Cymdeithasol yn y cynllun seibiant byr Cyswllt Teulu, cafodd gyfnod byr fel yr Uwch Ymarferydd yn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae bellach yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am y cynllun Llety â Chymorth

6 – Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo

- (a) **Cymwysterau** Diploma mewn Astudiaethau Lles
BSc Gwaith Cymdeithasol 2009
HNC Diogelu Plant 2012, Coleg Pen-y-bont.
Modiwlau CPEL mewn Iechyd Meddwl a Phlant a Theulu, Prifysgol Caerdydd 2016.
- (b) **Profiad** A hithau wedi cymhwyso a chofrestru'n weithiwr cymdeithasol ers 2009, mae ganddi 7.5 mlynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes maethu. Mae wedi bod yn arweinydd y grŵp cymorth i feibion a merched gofalwyr maeth ers 2010. Cyn hynny, cyfleoedd dysgu trwy ymarfer yn y tîm plant anabl, y tîm maethu. Fel gweithiwr cymdeithasol mae wedi gwneud gwaith gwirfoddol gyda Homestart ac wedi hwyluso grŵp cymorth i rieni plant â Dyspracsia.

7 - Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo

- (a) **Cymwysterau** BSc (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol 2011
Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2007
NVQ Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2006
Tystysgrif mewn Astudiaethau Lles 2004
- (b) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 5 mlynedd o brofiad. Cyn cymhwyso cafodd saith mlynedd o brofiad o weithio fel gweithiwr cymdeithasol cynorthwyol yn y timau diogelu a blwyddyn o brofiad o weithio fel gweithiwr cymorth dwys.

8. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo

- (a) **Cymwysterau** CPEL-Cyfnertu ymarfer 2016
BSc Anrhydedd Gwaith Cymdeithasol 2013
ECDL Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd 2009
NVQ Lefel 3 (plant a phobl ifanc) 2007
Tystysgrif Addysg Uwch mewn Amddiffyn Plant 2003

- (b) **Profiad** Yn gymwysedig mewn Gwaith Cymdeithasol gyda BSc Anrh ac wedi cofrestru gyda'r Cyngor Gofal yn 2013. Profiad ôl-gymhwysio mewn Gwaith Cymdeithasol Diogelu Plant. Mae wedi bod yn gweithio i'r Awdurdod Lleol yn y gwasanaethau plant statudol ers 2005 fel cynorthwydd teuluoedd, gweithiwr cymorth gofal dydd ac ymgynghorydd personol yn y tîm plant sy'n gadael gofal. Profiad gwirfoddol gyda'r Samariaid a Homestart.

9. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo – Rhan-amser

- (a) **Cymwysterau** MA DIPSW 2009
- (b) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 6 blynedd o brofiad ôl-gymhwysio. Bu'n gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol mewn tîm Plant sy'n Derbyn Gofal am 3 blynedd cyn y swydd hon. Cyn cymhwysio'n Weithiwr Cymdeithasol bu'n gweithio gyda phlant ag anableddau yn Barnardos

10. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo – Rhan-amser

- (a) **Cymwysterau** Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol 2004
Diploma mewn Astudiaethau Lles 2002
Tystysgrif mewn Astudiaethau Lles 2001
- (c) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd ag 11 mlynedd o brofiad ôl-gymhwysio ym maes gofal plant yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y profiad cyn cymhwysio'n cynnwys 3 blynedd ym maes gwaith Datblygu Ieuencid.

11. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo – Rhan-amser

- (a) **Cymwysterau**
- | | |
|---|------|
| BA (Anrh) Saesneg/Astudiaethau Clasurol | 1980 |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion | 1981 |
| Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol | 1994 |
| MA mewn Gwaith Cymdeithasol | 1995 |
| Dyfarniad Aseswr NVQ | 2004 |
- (b) **Profiad** Mae'n weithiwr cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig sydd â 22 mlynedd o brofiad ôl-gymhwysio ac fe'i penodwyd i'w swydd bresennol yn 2015. Cafodd brofiad yn flaenrol o weithio yn y sector preswyl, o addysgu, o weithio fel gweithiwr cymdeithasol gofal plant, gweithio ym maes Maethu Remand ac mewn Tîm Troseddau Ieuencid

12. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo – Mae'r swydd hon yn wag ar hyn o bryd; fodd bynnag rydym wedi penodi gweithiwr cymdeithasol yn ddiweddar i ddechrau yn gynnar ym mis Chwefror 2017

13. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo – Mae'r swydd hon yn wag ar hyn o bryd; fodd bynnag rydym wedi penodi gweithiwr cymdeithasol yn ddiweddar i ddechrau yn gynnar ym mis Chwefror 2017

14. Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu/Goruchwyllo – Mae'r swydd hon yn wag ar hyn o bryd; fodd bynnag rydym wedi penodi gweithiwr cymdeithasol yn ddiweddar i ddechrau yn gynnar ym mis Chwefror 2017

1 – Cynorthwydd Gwaith Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo

- (a) Cymwysterau** Diploma Lefel 3 y FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Tystysgrif mewn Gwyddor Gymdeithasol – Y Brifysgol Agored 2004,
Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Astudiaethau Cyfrifiadur a Thechnoleg Gwybodaeth
Astudiaethau Cyfrifiadur City & Guilds 2001
Astudiaethau Cyfrifiadur ECDL
Teipio a Gairbrosesu Cam 3 RSA
- (b) Profiad** Profiad gweinyddol dros 30 mlynedd yn y sector preifat ac mewn gwasanaethau statudol. Mae wedi gweithio mewn Gwasanaethau Plant am 16 mlynedd ac yn y Tîm Maethu am 10 mlynedd. Mae wedi gweithio fel gweithiwr cefnogi lleoliadau ac yn 2010 daeth yn gynorthwydd gwaith cymdeithasol sy'n goruchwyllo â chyfrifoldeb am oruchwyllo gofalwyr Rheoliad 26.

1 – Gweithiwr Cefnogi Lleoliadau

- (a) Cymwysterau** NVQ Lefel 3 Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc
- (b) Profiad** Mae wedi gweithio gyda Gwasanaethau Plant am 5 mlynedd yn y Tîm Cymorth i Deuluoedd, y Tîm Diogelu Plant a'r Tîm Maethu. Mae wedi cael profiad o weithio'n

uniongyrchol gyda phlant a'u teuluoedd yn benodol mewn achosion gofal ac yn awr gyda gofalwyr maeth, yn bennaf i reoli ymddygiad, cynorthwyo gofalwyr trwy honiadau a'r broses pan fo plentyn yn symud ymlaen i gael ei fabwysiadu.

6. Gweithdrefnau a Phrosesau

6.1 Recriwtio

- Mae gofalwyr maeth yn dal i fod ymhlith y ffynonellau recriwtio gorau ac felly mae staff unigol y Gwasanaeth Maethu yn ymdrechu i weithio gyda'r holl ofalwyr i sicrhau eu bod yn llysgenhadon brwdfrydig ar ran gwasanaeth maethu Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae Consortiwm Gwella De Cymru wedi cydweithio i ddarparu model recriwtio ymarfer gorau, sydd bellach yn ymarfer gweithredu safonol ac mae wedi gwneud y broses recriwtio'n fwy effeithlon i ymgeiswyr.
- Rydym yn dal i fuddsoddi mewn gwaith i roi cyhoeddusrwydd i ofal maeth a'i hyrwyddo er mwyn denu gofalwyr maeth newydd ac rydym yn monitro'r gwaith yma gan ddefnyddio strategaethau marchnata targededig penodol a graddol, sy'n cael eu lansio trwy gydol y flwyddyn. Mae swydd bwrpasol ar swyddog recriwtio ar gyfer maethu (sy'n cyfateb i uwch ymarferydd) yn cyfnerthu ac yn adolygu'r gwaith hwn. Defnyddir brand unigryw gyda gwaith papur a deunyddiau hysbysebu cysylltiedig ar draws yr holl wasanaethau maethu, mae hysbysebu parhaus yn y cyfryngau ac at ddibenion hyrwyddo'n profi'n fuddiol ac yn cael ei ehangu i gynnwys cymorth gan dimau a gwasanaethau lleol. Mae swydd Swyddog Marchnata sydd wedi'i neilltuo'n rhannol yn gweithio mewn partneriaeth glòs gyda'r Swyddog Recriwtio i wella'r gwasanaeth a'i hyrwyddo ymhellach gyda chyfeiriad ac arweinyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â recriwtio.
- Bellach mae gan y gwasanaeth Gofal Cymorth atgyfeiriadau gweithredol ac achosion y mae'n gweithio arnynt. Maent hefyd yn elwa o'r gwaith papur wedi'i frandio'n unigryw a'r deunyddiau hysbysebu sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal leol a chyfres o hysbysebion radio yn ogystal â gwybodaeth sy'n cael ei rhannu trwy amrywiaeth eang o ffynonellau yn y cyfryngau. Mae'r gweithiwr cymdeithasol gofal Cymorth yn mynd i gyfarfodydd allanol a mewnol i drafod y cynllun a'i gyfleoedd gyda gweithwyr proffesiynol.
- Mae Cyfarwyddiaethau eraill yn yr Awdurdod wedi ymrwymo i roi cymorth gyda gweithgareddau recriwtio. Mae ymgyrchoedd hyrwyddo ar y radio ac mewn papurau newydd wedi'u sefydlu gyda rhaglen flynyddol i ddatblygu sylw cynyddol ar adegau a dargedir yn y calendr.

- Mae'r broses ar gyfer rheoli ymholiadau gan ofalwyr maeth yn dal i gael ei rhoi ar gronfa ddata gyfrifiadurol y System Wybodaeth Gofal Cymunedol gan y Swyddog Recriwtio.
- Rydym yn cynnig gwybodaeth am ofal maeth i ddarpar ofalwyr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth o fewn 24 wedi iddynt gysylltu â'r gwasanaeth.
- Cysylltir ag ymholwyr o fewn 10 niwrnod gwaith pellach i sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol i benderfynu a ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â chais i ddod yn ofalwr maeth.
- Gwahoddir yr holl ymholwyr i fynychu digwyddiad Cwrdd a Chyfarch misol a letyir gan y Swyddog Recriwtio gyda gweithiwr cymdeithasol arall a gofalwr cyswllt yn bresennol.
- Trefnir bod darpar ofalwyr sy'n dymuno cael gwybodaeth bellach, ar ôl derbyn eu ffurflen mynegi diddordeb, yn cael ymweliad cychwynnol. Diben yr ymweliad hwn, a gynhelir gan weithiwr cymdeithasol sy'n asesu, yw rhoi rhagor o fanylion am y broses o ddod yn ofalwr maeth a galluogi'r gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu i wneud argymhelliad i'w gyflwyno gerbron y Rheolwr Tîm/swyddog recriwtio sy'n dynodi a ddylid bwrw ymlaen ag asesiad Ffurflen F.
- Os yw ymgeiswyr yn penderfynu bwrw ymlaen ac os yw eu hymweliad cychwynnol yn gadarnhaol, gadewir adrannau unigol penodol o'r Ffurflen F gyda'r ymgeiswyr er mwyn iddynt ddechrau eu llenwi tra bo'u gwiriadau personol yn cael eu cynnal. Hefyd, mae ymgeiswyr yn cael eu henwebu i ddilyn y cwrs sgiliau maethu nesaf sydd ar gael.
- Unwaith y mae gwiriadau'n dod i law, wedi mynd trwy broses graffu ac y ceir cadarnhad bod ymgeiswyr yn addas ar gyfer asesiad mae'r ymgeiswyr yn cael eu neilltuo i weithiwr cymdeithasol sy'n asesu ar gyfer asesiad Ffurflen F.

6.2 Asesu a Chymeradwyo

- Bydd asesiad yn cael ei gynnal o addasrwydd yr ymgeiswyr i ofalu am blant pobl eraill. Bydd hyn ar ffurf ymweliadau â'r cartref gan Weithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu, hyfforddiant (sgiliau maethu – cwrs 3 diwrnod), a gwaith ysgrifenedig unigol wedi'i gwblhau gan yr ymgeiswyr i archwilio hanesion personol, perthnasoedd o fewn y teuluoedd, agweddau a gwerthoedd ac a yw'r ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau a'r priodoleddau sy'n dynodi bod ganddynt y potensial i fodloni'r cymwyseddau craidd y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

- Bydd ymgeiswyr yn cwblhau hyfforddiant paratoadol Sgiliau Maethu fel rhan o'r broses asesu; mae hyn yn digwydd dros 3 diwrnod ac mae'n rhaglen hyfforddi agored a rhagweithiol iawn sy'n cynnwys llawer o drafod a chyflwyno senarios o fywyd go iawn. Mae'r rhaglen Sgiliau Maethu wedi cael ei haddasu a'i diwygio'n briodol i'w gwneud yn addas ar gyfer y diben yn benodol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau
- Mae gwiriadau statudol ac asesiadau meddygol llawn yn cael eu cwblhau a geir daon cyflogaeth a phersonol yn cael eu ceisio ar gyfer yr holl ymgeiswyr, ynghyd â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw oedolyn arall yn yr aelwyd, neu ymwelwyr rheolaidd arwyddocaol, dros 18 oed. Bydd asesiad o amodau'r cartref yn cael ei gynnal hefyd a holiadur iechyd a diogelwch yn cael ei gwblhau; os oes anifeiliaid anwes yn y cartref mae holiaduron anifeiliaid anwes yn cael eu cwblhau hefyd. Mae gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr Bolisi Ysmygu sydd yn gyson â pholisi Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu De Cymru ac sydd wedi cael ei ddiwygio ychydig i adlewyrchu cyfrifoldebau gofalwyr maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid yw ceisiadau gan bobl sy'n ysmegu'n cael eu symud ymlaen ar gyfer plant dan 5 oed. Bydd gofalwyr posibl ar gyfer plant dros 5 yn cael eu hystyried os yw'r ymgeiswyr yn ymrwymo i roi'r gorau iddi.
- Mae proses yn ei lle i atgyfeirio, dyrannu ac asesu asesiadau o ofalwyr sy'n berthnasau, a grëwyd ar y cyd â'r timau Diogelu a chyfreithiol; cyfeirir at yr asesiadau hyn fel Asesiadau Unedig. Mae gofalwyr sy'n berthnasau'n cael yr un gwiriadau â'r rhai a nodir uchod ac yn dilyn y rhaglen Sgiliau Maethu.
- Cynhelir asesiadau yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a chânt eu cwblhau gan ddefnyddio ffurflenni asesu presennol Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain.
- Caiff yr holl asesiadau eu hystyried gan Banel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cyflwyno argymhellion i'r Pennaeth Gwasanaeth (Diogelu a Chymorth i Deuluoedd) ynghylch cymeradwyo a'r telerau ar gyfer eu cymeradwyo.

6.3 Hyfforddiant a chymorth

- Mae'r holl ofalwyr maeth yn cael eu goruchwylio gan weithiwr cymdeithasol sy'n gorychwylio ar sail nad yw'n llai na phob 3 mis ac fe gofnodir hyn ar ffurflen ymweliad goruchwylio misol. Mae cynnwys y ffurflen hon yn galluogi proses oruchwylio gadarn i ddigwydd a honno'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003. Mae'n ofynnol i ofalwyr lofnodi'r cofnodion hyn, cytuno ar gynllun gweithredu a'i gyflawni a chadw eu copi hwy eu hunain o'r cofnodion goruchwylio, sy'n cael eu cymeradwyo gan uwch aelod o staff o fewn Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae anghenion hyfforddi a datblygu pob gofalwr maeth cymeradwy'n cael eu trafod a'u hystyried yn yr ymweliad goruchwylio misol. Mae anghenion hyfforddi a datblygu'n cael eu cofnodi gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n

goruchwylio, mae enwebiadau ar gyfer cyrsiau'n cael eu gwneud ac yn gysylltiedig â'r camau gweithredu o'r ymweliad goruchwylio misol ac adolygiad blynyddol y gofalwr maeth. Ceir rhaglen hyfforddiant ôl-gymeradwyo orfodol sy'n cynnwys naw elfen ar hyn o bryd ac y mae disgwyl i ofalwyr ei chwblhau dros gyfnod o dair blynedd.

- Bydd cynnydd o ran datblygu sgiliau, a gaiff ei gadarnhau trwy'r adolygiad blynyddol, yn galluogi gofalwyr maeth cyffredinol i gael taliadau ffioedd trwy gwblhau Lefel 4 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau yn llwyddiannus.
- Mae gofalwyr maeth yn cael cynnig hyfforddiant arall fel y bo'n briodol i'w gwybodaeth, eu sgiliau a'u hanghenion datblygiadol.
- Darperir hyfforddiant ar-lein ar gyfer gofalwyr ag amgylchiadau penodol.
- Mae cytundebau Gofalu Diogelach a gwiriadau lechyd a Diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd o leiaf yn flynyddol; mae materion perthnasol yn cael eu hystyried yn ymweliadau goruchwylio wythnosol y gofalwyr gydag adolygiad trylwyr bob tro y ceir lleoliad newydd, neu drwy broses yr adolygiad blynyddol. Yn unol â deddfwriaeth mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo gyda gofalwyr cymeradwy sy'n ysmegu ar hyn o bryd i ystyried eu hymatebion i oblygiadau eu harferion ysmegu ac i'w rheoli. Mae cynllun gweithredu sy'n nodi'r dulliau unigol yn cael ei lunio a chofnodion o'r arfer yn cael eu casglu ac mae'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro trwy oruchwylio.
- Pan fo'r holl ofalwyr maeth cyffredinol a gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn eu blwyddyn gyntaf o faethu ac wedi hynny os gofynnir ar gyfer gofalwyr cyffredinol tra'u bod yn cyflawni'r FfCCh; bydd gofalwr Cyswllt yn cael ei neilltuo i fod ar gael iddynt. Mae'r gofalwr Cyswllt yn ofalwr maeth profiadol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau ei hun fel gofalwr maeth. Bydd y gofalwyr cyswllt hyn yn cynnal cyswllt rheolaidd â phob un o'u gofalwyr yn ystod eu blwyddyn gyntaf a gellir eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth ac ymholiadau cyffredinol. Bydd y gofalwyr Cyswllt yn cael eu goruchwylio yn eu rôl gan yr Uwch Ymarferydd bob 6 wythnos. Crëwyd y 5 gofalwr cyswllt (3 yn cynrychioli ardaloedd penodol, ochr yn ochr ag 1 ar gyfer perthnasau ac un ar gyfer gofalwyr Rheoliad 38) yn dilyn cwblhau'r adolygiad o'r trefniadau Lefel 4.
- Y tu allan i oriau arferol gall gofalwyr maeth gael mynediad at Dîm Dyletswydd Argyfwng yr Awdurdod neu eu gofalwr maeth Cyswllt. Mae gan y tîm dyletswydd argyfwng uwch aelod o staff sydd ar gael iddynt dros y ffôn 24 awr y dydd, pan fo angen.
- Mae gofalwyr maeth yn cael Cylchlythyr sy'n darparu gwybodaeth am y Gwasanaeth, ei ddatblygiadau a'i faterion, ac mae cyfle iddynt gyfrannu ato hefyd. Mae'r Cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu bob chwarter. Mae'r wefan yn cael ei diweddarau ac efallai y bydd yn cynnwys adran i ofalwyr maeth fod â'u fforwm eu hunain.

- Gall gofalwyr maeth gael mynediad at y Gweithiwr Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal i gael cyngor a chymorth i sicrhau bod cyflawniadau addysgol plant mor uchel â phosibl.
- Gall gofalwyr maeth gael mynediad at yr Ymwelydd Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal i gael cyngor ynghylch iechyd plant sy'n derbyn gofal.
- Gall gofalwyr maeth ac arnynt angen seibiant ar sail gynlluniedig gael mynediad at wasanaethau seibiant gydag aelodau o'r teulu a gymeradwywyd neu ofalwyr maeth eraill. Gwasanaeth cyfyngedig yw seibiant gyda gofalwyr eraill ac anogir gofalwyr os yn bosibl i ddefnyddio aelodau o'r teulu sy'n gyfarwydd i blentyn.
- Gall gofalwyr maeth â phlant dros 8 oed gael mynediad at gymorth uniongyrchol gan y Gwasanaethau Cymorth y gall eu cymorth gael ei roi er mwyn sicrhau sefydlogrwydd lleoliad.
- Bydd gofalwyr maeth yn cael lwfansau plant yn ôl cyfradd Llywodraeth Cymru, a thaliadau yn ôl disgrisiwn yn ychwanegol at y rhain ond gan gofio mai taliadau cyfyngedig fydd y rhain. Byddant yn gymwys i gael taliadau ffioedd, ar yr amod eu bod wedi cael adolygiad blynyddol boddhaol, wedi dangos sgiliau ac wedi derbyn cyfrifoldebau ychwanegol.
- Mae gan yr holl lleoliadau gytundeb lleoliad a chytundeb gofalu diogel sydd mewn grym ar adeg lleoli neu cyn lleoli pob plentyn sy'n cael ei leoli.
- Mae rôl gweithiwr cefnogi lleoliadau wedi'i bwriadu'n bennaf i gyflawni diben sydd wedi'i rannu'n 3 maes penodol:
 1. Cefnogi gofalwyr trwy gwynion neu honiadau
 2. Cynorthwyo gofalwyr i reoli ymddygiad heriol gyda'r nod o atal hynny rhag tarfu ar y lleoliad
 3. Cynorthwyo a chefnogi gofalwyr sy'n symud plant ymlaen i lleoliadau mabwysiadol.

6.4 Adolygu

Mae'r holl ofalwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae eu cofrestrriad parhaus yn cael ei ystyried gan y Panel Maethu neu ar lefel rheolwr/swyddog sydd wedyn yn cyflwyno argymhelliad i Bennaeth y Gwasanaeth.

7. Sicrhau Ansawdd

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Er mwyn gwneud hynny, mae'n defnyddio nifer o brosesau:

- Adolygiadau gofalwyr yn cael eu hystyried lle bynnag y bo'n bosibl o leiaf bob 3 blynedd gan Banel, sy'n cynnwys aelodau annibynnol.

- Adolygiadau gofalwyr yn cael eu hystyried gan uwch reolwr.
- Cynnal ymweliadau dirybudd â lleoliadau maethu o leiaf yn flynyddol.
- Ffeiliau gofalwyr yn cael eu harchwilio gan y gweithiwr â chyfrifoldeb am yr achos neu ei gymheiriaid ac yna'n cael eu gwirio gan Reolwr y Tîm neu uwch aelod o'r tîm.
- Gall ffeiliau sampl gael eu harchwilio gan y Rheolwr Grŵp neu swyddogion eraill fel rhan o archwiliad ehangach o wasanaethau.
- Mae Gweithwyr Cymdeithasol sy'n goruchwyllo a Gweithwyr Cymorth yn cael sesiynau goruchwyllo misol. Mae Rheolwr y Tîm ac uwch ymarferwyr yn cael sesiynau goruchwyllo bob 6 wythnos.
- Mae staff yn cael arfarniadau blynyddol y gellir eu hadolygu ar ôl 6 mis.
- Cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer staff a gofalwyr a mynediad at raglen hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant ôl-gymhwysio i Weithwyr Cymdeithasol a Lefel 4 y FfCCh mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol i ofalwyr maeth, wedi'i gryfhau gan ddadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddi a gaiff ei gwblhau'n flynyddol.
- Gweithdrefn Cwynion a Sylwadau ar gyfer gofalwyr a phlant maeth a gwybodaeth am eiriolaeth
- Digwyddiadau ymgynghori; mae unrhyw eitemau a godir yn cael eu cofnodi ac mae'r cofnodion hynny'n cael eu dosbarthu i holl boblogaeth gofalwyr maeth Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n orfodol fel rhan o'u Cytundeb Gofalwr Maeth bod gofalwyr maeth yn mynychu'r Digwyddiad Ymgynghori a Gwybodaeth, a gynhelir 2 waith y flwyddyn.
- Mae ymarfer sicrhau ansawdd yn parhau mewn perthynas â'r Panel Maethu ac mae hwn yn casglu ymatebion gan yr holl bartion sy'n cyfrannu at y broses, gydag adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu ar gyfer Pennaeth y Gwasanaeth ac Ymgynghorydd y panel

8. Crynodeb o'r Weithdrefn Gwynion

Mae'r weithdrefn gwynion yn ei gwneud yn ofynnol i staff geisio datrys cwynion yn anffurfiol, pryd bynnag y bo'n briodol. Fodd bynnag, pan fo angen ymdrin yn ffurfiol â chwynion, mae gwybodaeth eglur ar gael ar ffurf polisi, gweithdrefn a chanllawiau. Lle mae angen diwygio polisiau a gweithdrefnau mewn ymateb i ganlyniad cwynion, mae mecanweithiau'n bodoli i amlygu meysydd penodol i'w newid.

Mae'r holl ofalwyr a phlant mewn lleoliad yn cael canllawiau a chopi o'r weithdrefn gwynion ac os ydynt yn gofyn am ffurflenni neu wybodaeth ar unrhyw adeg arall gellir darparu'r rhain ar unwaith.

Mae'r Gwasanaeth Maethu'n ymlynu'n llawn wrth, ac yn cydymffurfio'n llawn â Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adran 24d a 26 o Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn Gwynion) 1970. [Cyswllt â'r Swyddog Cwynion enwebedig 01656 642253]

9. Cyfeiriad a Rhif Ffôn Swyddog Priodol y Cynulliad Cenedlaethol

AGGCC Rhanbarth De Orllewin Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
Ffôn: 01267 245160
Ffacs: 01267 245140

10. Cyfeiriad, Rhif ffôn ac e-bost y Comisiynydd Plant

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth,
Llys Siarter,
Ffordd Ffenics,
Llansamlet,
Abertawe.
SA7 9FS
post@childcomwales.org.uk
Ffôn: 01792 765600

Diweddarwyd 04/01/17